



Yr Wyddgrug yn Llwyrr - Talebau Siopa'n Lleol

Annwyl Fusnes

Yr Wyddgrug yn Llwyrr - Cynllun Talebau Siopa'n Lleol - menter newydd sbon sy'n cael ei threfnu, ei rheoli a'i hariannu gan Gyngor Tref yr Wyddgrug. Mae'r cynllun yn ymateb i'r heriau digynsail i wead ein Tref a'n Cymuned oherwydd y Coronafeirws.

Bwriad Taleb Siopa'n Lleol Yr Wyddgrug yn Llwyrr Cyngor Tref yr Wyddgrug yw denu pobl yn ôl i'r dref i siopa a gwario arian, i roi hwb i'r economi lleol ac i dynnu sylw at y fath amrywiaeth ryfeddol o siopau a gwasanaethau sydd yn yr Wyddgrug.

Nid pethau i'w defnyddio'n unig yn siopau'r Wyddgrug yw'r talebau. Rydym eisiau gallu cynnig profiad o **Yr Wyddgrug yn Llwyrr** i'r gymuned a chael amrywiaeth eang o fusnesau lle gall pobl ddefnyddio talebau, gan gynnwys salonau harddu / trin gwallt, tafarnau, tai bwyta, caffis, barbwyr, twtwyr cŵn, campfeydd, achlysuron ac ati. Byddwn yn annog pobl i brynu talebau i'w defnyddio tuag at eu siopa wythnosol, fel anrheg i deulu a chyfeillion, ar gyfer mwynhau noson allan, tipyn o faldod neu dorri gwallt ar ôl cyfnod mor faith.

Mae'r Wyddgrug yn ymfalchïo yn ysbryd cymunedol cryf y dref, a'n neges i'r gymuned fydd siopa'n lleol a defnyddio gwasanaethau lleol. Mae'n bwysicach nag erioed edrych ar yr hyn sydd gan yr Wyddgrug i'w gynnig cyn gwario'ch arian allan o'r dref. "Pe bai pob oedolyn yn yr Wyddgrug yn gwario £5 yr wythnos yn eu siopau a busnesau lleol, yn hytrach nag ar-lein neu oddi allan i'r dref, byddai'n werth £2 FILIWN yn uniongyrchol i'n heconomi lleol. Sy'n golygu mwy o swyddi, gwell stryd fawr, economi cryfach a lle mwy dymunol i fyw ac ymweld." *Ffynhonnell 'Totally Locally'*

Rydym yn derbyn bod llawer o fusnesau ar gau ar hyn o bryd neu'n gweithredu gwasanaeth llai. Felly, ni fydd talebau ar gael i'r cyhoedd cyn llacio'r cyfyngiadau a holl fusnesau ar agor ac yn gweithredu'n llawn unwaith eto. Yn y cyfamser, rydym yn gofyn i fusnesau gofrestru ac ymuno â'r cynllun. Yr unig amod yw eu bod yn yr Wyddgrug neu'n masnachu yn y dref.

Mae **ymuno'n ddi-dâl** ac, unwaith y byddwch wedi cofrestru, bydd eich busnes ar y rhestr o fusnesau cyfrannog i'w hybu.

Nod y cynllun hwn yw ymateb i'r pandemig hwn drwy helpu cadw gwariant defnyddwyr yn lleol a rhoi hwb i'r economi. Dangosodd ymchwil i gynlluniau eraill lwyddiant ysgubol a busnesau'n sôn am gynnydd mewn gwerthiant o ganlyniad.

Cofiwch nad yw'n costio dim i'ch busnes ymuno â'r cynllun hwn. Bydd eich busnes yn derbyn 100% o werth talebau a dderbyniwch ac a ddychwelwch i Gyngor y Dref.

Rydym wedi casglu rhai cwestiynau cyffredin ac atebion a allai helpu i chi benderfynu a ydych eisiau cymryd rhan. Os oes gennych gwestiynau ychwanegol neu os hoffech drafod mwy, cofiwch gysylltu â mi neu'r tîm. Fe welwch y manylion cysylltu isod.

Os hoffech gymryd rhan, y cyfan a ofynnwn yw eich bod yn llenwi a dychwelyd y ffurflen gofrestru mor fuan ag y gallwch, ynghyd â logo a gwefan / cyfryngau cymdeithasol eich cwmni (os yw'n berthnasol). Bydd hybu'r cynllun yn dechrau pan fydd nifer o fusnesau wedi cofrestru. Bydd rhagor o fusnesau'n cael eu hychwaneg pan fyddant yn ymuno.

Edrychwn ymlaen yn fawr iawn at eich gweld yn ymuno â'r cynllun siopa'n lleol hwn.

Cofion cynnes



Ian D Jones ACIS, B A (Anrh), CiLCA
Clerc a Swyddog Cyllid y Dref

Manylion cysylltu:

Joanna Douglass Swyddog Busnes ac Adfywio, e-bost: business@moldtowncouncil.org.uk

Jane Evans Swyddog Achlysuron ac Ymgysylltu â'r Gymuned, e-bost:
events@moldtowncouncil.org.uk

Rhif ffôn cysylltu 01352 758532

Pam ymuno â Chynllun Talebau Siopa'n Lleol Yr Wyddgrug yn Llwyf?

Yn gyntaf, does gennych chi ddim i'w gollu; nid yw'n costio dim i chi; nid oes unrhyw ffi na chost reolaidd i'ch busnes. Ar ôl derbyn taleb Yr Wyddgrug yn Llwyf yn gyfnewid am nwyddau neu wasanaethau, gofynnwn i chi ddychwelyd y daleb ynghyd ag anfoneb i Gyngor Tref yr Wyddgrug ac fe gewch 100% o werth y daleb cyn pen 10 diwrnod ar ôl ei derbyn.

Mae'n ffordd wych o hyrwyddo a hysbysebu eich busnes yn ddi-dâl oherwydd y bydd holl fusnesau yn ein deunyddiau hysbysebu'r cynllun talebau.

Mae'n gyfle i chi gynyddu nifer yr ymwelwyr, gwerthu pethau drutach a chynhyrchu busnes eildro.

A yw fy musnes yn gymwys?

Ydi, os yw eich busnes o fewn terfynau'r Wyddgrug neu'n masnachu yn y dref, gan gynnwys stondinwyr y farchnad.

Sut mae hyn yn gweithio?

Bydd talebau ar gael am £5 a £10 *

bydd cwsmeriaid yn defnyddio Talebau Siopa'n Lleol Yr Wyddgrug yn Llwyf i dalu'n llawn neu'n rhannol am nwyddau neu wasanaeth mewn busnesau cyfrannog. Os yw'r gwerthiant yn llai na gwerth y daleb, ni fydd newid yn cael ei roi. Rhaid defnyddio talebau'n llawn ac nid oes modd eu defnyddio bob yn dipyn.

Gofynnwn i'ch busnes dderbyn talebau am unrhyw nwyddau neu wasanaethau sy'n cael eu darparu gan eich busnes.

**bydd holl fusnesau cyfrannog yn cael gweld enghreifftiau o'r talebau cyn dechrau'r cynllun.*

Nid yw fy musnes yn manwerthu, gaf i ddal i gymryd rhan?

GALLWCH, yn bendant. Rydym eisiau gallu cynnig profiad **Yr Wyddgrug yn Llwyf** gyda dewis ac amrywiaeth eang o fusnesau gan gynnwys siopau, salonau harddu / trin gwallt, tafarnau, tai bwyta, caffis, barbwyr, twtwyr cŵn, campfeydd, achlysuron a mwy.

Rydym eisiau arddangos gymaint sydd gan yr Wyddgrug i'w gynnig.

Rydym eisiau i bobl brynu talebau Yr Wyddgrug yn Llwyf fel anrhegion i deulu a chyfeillion yn hytrach na phrynu'r talebau stryd fawr cenedlaethol.

Sut mae talebau'n cael eu cyhoeddi, o ble all pobl eu cael?

Cyngor Tref yr Wyddgrug fydd yn gyfrifol am ddosbarthu'r talebau. Byddant ar werth yn Neuadd y Dref a hefyd o stondin Cyngor y Dref ym marchnad yr Wyddgrug.

Fel rhan o hybu'r cynllun talebau, byddwn yn cynnal cyfres o gystadlaethau sy'n ymgysylltu â'r gymuned, trwy gynnig cyfle i'r cyhoedd ennill talebau Yr Wyddgrug yn Llwyd.

Byddem hefyd yn annog busnesau i ystyried prynu talebau trwy Gyngor y Dref a'u rhoi i'w staff yn lle bonysau arian parod.

Ni fydd talebau'n cael eu cyhoeddi cyn llacio'r cyfyngiadau a holl fusnesau cyfrannog yn gweithredu'n llawn. Byddwn yn cysylltu â busnesau cyfrannog unwaith y bydd y talebau ar werth.

Sut allaf i gynorthwyo hybu fy musnes wrth gymryd rhan?

Bydd Cyngor Tref yr Wyddgrug yn hyrwyddo'r cynllun ond fe fyddem yn annog holl fusnesau cyfrannog i wneud eu hyrwyddo eu hunain yn ogystal.

Fe fyddem yn annog holl fusnesau cyfrannog i ystyried gwneud '**cynigion arbennig**' ar brynu trwy Daleb Siopa'n Lleol Yr Wyddgrug yn Llwyd er enghraifft. Gallwn helpu hybu eich cynigion fel rhan o hyrwyddo'r cynllun yn gyffredinol. Cofiwch y bydd Cyngor Tref yr Wyddgrug yn ad-dalu 100% o werth y daleb a bydd cynigion arbennig / gostyngiadau yn annog pobl i wario eu talebau gyda chi.

E-bostiwch eich cronfa ddata cwsmeriaid a gofyn iddynt ystyried prynu taleb drostynt eu hunain neu fel anrheg, gan egluro'r buddiannau i'ch busnes, y dref a'r economi lleol

Diweddariad eich tudalennau cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys yr hashnod **#YrWyddgrygYnLlwyd**

Arddangos logo Yr Wyddgrug yn Llwyd yn eich busnes fel bod cwsmeriaid yn gweld ar unwaith eich bod yn derbyn Talebau Siopa'n Lleol Yr Wyddgrug yn Llwyd.

Efallai y bydd pobl yn gofyn 'oni fyddai'n well gwario'r arian gyda chi, pam ddylwn i brynu taleb?', byddem yn annog eich bod yn egluro holl fuddiannau'r cynllun a siopa'n lleol iddynt.

Pa mor gyflym gaf i fy nhalu?

Mater i chi yw hynny, ond gofynnwn i chi anfon anfoneb atom am gyfanswm gwerth y talebau a gawsoch. Anfonwch eich anfoneb ynghyd â'r talebau a gawsoch i Gyngor Tref yr Wyddgrug. Cynhwyswch fanylion eich banc ar yr anfoneb oherwydd mai ein dull talu dewisol yw trosglwyddiad banc. Fodd bynnag, fe allwn roi sic eiddoedd os oes gofyn.

Bydd holl anfonebau'n cael eu talu cyn pen 10 diwrnod ar ôl eu derbyn.

Gallwch roi anfoneb am bob taleb neu dalebau cronol, pa un bynnag sydd orau gennych.

Ni fydd unrhyw daliad yn cael ei wneud heb dderbyn anfoneb a thalebau cysylltiedig.

Peidiwch ag ychwanegu TAW at eich anfoneb

Beth am TAW?

Mae'r talebau hyn yr un fath â phe bai rhywun yn prynu gennych neu eich talebau anrhegion eich hun. Mae angen i chi roi cyfrif am gydran TAW y talebau fel y gwnewch fel arfer.

Yn yr un modd, unwaith y cewch daliad gan Gyngor y Dref, bydd hyn yn cael ei ddsbarthu fel incwm busnes ac yn cyfrif tuag at eich derbyniadau.

My business is not retail, can I still participate?

YES, definitely, we want to be able offer a **Totally Mold** experience with wide range and variety of businesses including retail stores, beauty /hair salons, pubs, restaurants, cafés, barbers, dog groomers, gyms, events and more.

We want to showcase just how much Mold has to offer.

We want people to purchase Totally Mold vouchers as gifts for family and friends rather than buy the national High Street vouchers

Oes yna ffioedd?

Yn hollol syml, DIM ffioedd.

Nid oes unrhyw ffi ymuno na ffioedd parhaol.

Am ba hyd fydd y cynllun yn gweithredu?

Menter newydd Cyngor Tref yr Wyddgrug yw hon i helpu'r dref a rhoi hwb i'r economi lleol ar ôl COVID-19. Mae Cyngor y Dref wedi neilltuo cyllideb ar gyfer gweinyddu'r cynllun hwn.

Fe allwch chi helpu hybu gwerthiant y talebau trwy gynnig cynigion arbennig a gostyngiadau i annog pobl i brynu talebau gan Gyngor y Dref. Cofiwch ddefnyddio'r hashnod **#YrWyddgrugYnLlwy**.

Oes yna Ddyddiad Terfyn ar y Daleb?

Fel busnes yn ymuno â'r cynllun rydych yn cytuno i dderbyn y daleb yn gyfnewid am nwyddau neu wasanaethau ac, felly, nid oes unrhyw ddyddiad terfyn ar y Daleb. Fe gewch ad-daliad llawn o werth talebau gan Gyngor Tref yr Wyddgrug.

Taliad i'w adennill erbyn 31 Mawrth 2021 lle bo modd.